Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **Dydd Llun, 11 Gorffennaf 2011**

Teitl: **Prifysgolion a cholegau'n cael caniatâd i godi ffioedd uwch**

Mae CCAUC wedi cymeradwyo cynlluniau ffioedd 13 o brifysgolion a cholegau yng Nghymru, a gallant bellach gynyddu eu ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig o'r flwyddyn academaidd 2012.

Mae'r sefydliadau – 10 prifysgol a thri choleg addysg bellach – yn awr yn gallu codi ffioedd uwch na'r gyfradd sylfaenol o £4,000, hyd at £9,000 y flwyddyn, ar fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau israddedig.

Bydd y lefelau cyffredinol o ffioedd, a ystyriwyd yn gynigion hyd yma, yn dechrau ar £3,850 ar gyfer rhai cyrsiau HND, ac yn amrywio o £5,850 i £9,000 ar gyfer cyrsiau gradd israddedig amser-llawn a chyrsiau TAR. Bydd y lefel gyfartalog o ffioedd ar gyfer pawb tua £8,800.

Roedd gofyn i'r holl sefydliadau roi ystyriaeth ofalus i farn eu myfyrwyr wrth lunio eu cynllun terfynol.

Rhai o'r datblygiadau arfaethedig yw:

- amrywiaeth o fwrsarïau i fyfyrwyr o deuluoedd ar incwm isel neu o gefndiroedd difreintiedig;
- cymorth astudio a phersonol ychwanegol o fewn prifysgolion;
- mentora a chodi dyheadau myfyrwyr posibl mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, gan gynnwys dysgwyr aeddfed;
- annog myfyrwyr i astudio pynciau blaenoriaethol megis gwyddoniaeth, peirianneg ac ieithoedd tramor modern;
- darparu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg;

- gwella sgiliau a phrofiad gwaith myfyrwyr i gynyddu eu rhagolygon gwaith; a
- gwella cyfleusterau TGCh a llyfrgell.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'n amlwg o'r cynlluniau ffioedd y bydd y sefydliadau'n defnyddio canran uchel o'u hincwm ychwanegol er budd eu myfyrwyr, o fwrsarïau i fyfyrwyr o gymunedau dan anfantais i fuddsoddi mewn technoleg newydd.

"Mae addysg uwch yn fuddsoddiad rhagorol. Mae'r tryloywder y mae'r broses cynllunio ffioedd yn ei fynnu gan y sefydliadau, gan gynnwys yr amod eu bod yn gweithio'n agos â'u myfyrwyr i baratoi eu cynllun, yn ei gwneud hi'n bosibl i fyfyrwyr weld yn gliriach nag o'r blaen yr hyn y gallant ei ddisgwyl o'u buddsoddiad mewn addysg uwch. Mae'r sefydliadau wedi dangos i ni fod gwella profiad y myfyrwyr yn ganolog i'r cynlluniau hyn, a chredwn y bydd modd trosi eu cynigion yn weithgareddau llwyddiannus o'r flwyddyn nesaf ymlaen."

Er y bydd ffi a godir am gwrs yr un fath ar gyfer israddedigion amser-llawn o unrhyw wlad yn y DU neu'r UE, bydd myfyrwyr sydd fel rheol yn byw yng Nghymru (a myfyrwyr o'r UE yng Nghymru) yn derbyn grant ffi nad oes angen ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru am gost eu ffi dros £3,465, ble bynnag yr astudiant yn y DU.

Bydd y prifysgolion a cholegau yn cael yr incwm a godir o ffioedd uwch o 2012 – ac yn ail-fuddsoddi cyfran sylweddol ohono – a bydd myfyrwyr yn dechrau ad-dalu eu benthyciad ffioedd dysgu pan fyddant yn ennill dros £21,000, a dim ond ar ôl graddio.

Roedd CCAUC wedi hysbysu'r holl sefydliadau ynghynt, ar 10 Mehefin, nad oedd y cynlluniau fel yr oeddynt – yr oedd pob un wedi'i gyflwyno erbyn 31 Mai – yn bodloni'r gofynion angenrheidiol, a gofynnwyd iddynt wneud gwaith pellach arnynt.

Bu'r holl sefydliadau'n trafod â CCAUC drwy gydol mis Mehefin i sicrhau bod eu cynlluniau'n gadarn a bod eu cynigion i ehangu mynediad, sicrhau cyfle cyfartal a hybu addysg uwch yn ddigon uchelgeisiol.

Ni chafodd un cynllun, gan Goleg Castell-nedd Port Talbot, ei dderbyn gan na chafodd y cynllun terfynol, wedi'i gymeradwyo gan y llywodraethwyr, ei gyflwyno i ni erbyn y dyddiad cau o Ddydd Gwener, 1 Gorffennaf. Mae hyn yn golygu mai'r mwyafswm y gall y Coleg ei

godi yw'r gyfradd ffi sylfaenol o £4,000 ar gyfer addysg uwch israddedig amser-llawn yn 2012/13, neu y bydd yn gofyn am adolygiad o benderfyniad CCAUC, gan Lywodraeth Cymru, erbyn 20 Awst 2011.

Diwedd

Nodiadau

Am wybodaeth bellach cysylltwch â
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu
Ffôn: 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Cynlluniau ffioedd a gymeradwywyd
Mae CCAUC wedi cymeradwyo'r cynlluniau ffioedd a gyflwynwyd gan y sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach canlynol:

1. Prifysgol Morgannwg
2. Prifysgol Aberystwyth
3. Prifysgol Bangor
4. Prifysgol Caerdydd
5. Prifysgol Abertawe
6. APCC (Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd)
7. Prifysgol Cymru Casnewydd
8. Prifysgol Glyndŵr
9. Prifysgol Fetropolitan Abertawe
10. Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

11. Coleg Llandrillo Cymru
12. Coleg Sir Gâr
13. Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

Roedd Coleg Castell-nedd Port Talbot wedi cyflwyno cynllun erbyn y dyddiad cau gwreiddiol o 31 Mai. Fodd bynnag, ni chafodd ei dderbyn gan na chafodd y cynllun terfynol, wedi'i gymeradwyo gan y llywodraethwyr, ei gyflwyno i ni erbyn ein dyddiad cau

newydd o Ddydd Gwener, 1 Gorffennaf.

Cynlluniau

I gael copïau o'r cynlluniau ffioedd a manylion y lefelau ac amrediadau o ffioedd, byddwch cystal â chysylltu â'r sefydliadau eu hunain. Bydd cyswllt iddynt hefyd o wefan CCAUC www.hefcw.ac.uk → ynghylch addysg uwch yng Nghymru → astudio mewn addysg uwch → ffioedd israddedigion amser-llawn o 2012, wrth iddynt gael eu rhoi ar wefannau'r sefydliadau.

Rhaid i bob sefydliad gyhoeddi ei gynllun ffioedd ar ei wefan o fewn wythnos iddo gael ei gymeradwyo. Bydd cysylltau o wefan CCAUC i'r tudalennau hyn ar ôl iddynt fynd yn fyw.

Buddsoddiad y sector AU drwy ffioedd 2012/13

Cyfanswm y buddsoddiad o ffioedd yn 2012/13 fydd £63.712 miliwn. Bydd £39.654 miliwn (62%) o'r arian hwn yn cael ei fuddsoddi i sicrhau mwy o gyfle cyfartal mewn perthynas â mynediad i addysg uwch a defnyddir £24.058 miliwn i hybu addysg uwch a gwella profiad y myfyriwr.

Byddwch cystal â chyfeirio at gynlluniau ffioedd y sefydliadau eu hunain i gael manylion buddsoddiadau penodol. Gellir dod o hyd i fanylion cysylltu sefydliadau AU yn www.hefcw.ac.uk → ynghylch AU yng Nghymru → sefydliadau addysg uwch.

Yn achos colegau addysg bellach, ewch i www.colegaucymru.ac.uk → Colegau Cymru. Bydd cyswllt i'r rhain hefyd o wefan CCAUC www.hefcw.ac.uk → ynghylch addysg uwch yng Nghymru → astudio mewn addysg uwch → ffioedd israddedigion amser-llawn o 2012, wrth iddynt gael eu rhoi ar wefannau'r sefydliadau.

Adolygiad o benderfyniad CCAUC

Gall sefydliad ofyn am adolygiad o benderfyniad CCAUC, gan Lywodraeth Cymru, erbyn 20 Awst 2011.

Manylir ymhellach ar broses apelio Llywodraeth Cymru ar ein gwefan www.hefcw.ac.uk → cyhoeddiadau → cylchlythyrau, Cylchlythyr W11/14HE 'Fee Plan Guidance 2012/13: Appendix A, WG guidance' o dan 'appeals'.

Cefndir

Ym mis Tachwedd 2010, cyhoeddodd Leighton Andrews, Gweinidog Addysg Cymru, y gallai sefydliadau addysg uwch (AU) Cymru (a cholegau addysg bellach a oedd yn cynnig cyrsiau AU cymwys), o 2012/13, godi ffioedd o hyd at £9,000 ar israddedigion amser-llawn.

Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddwyd y byddai'r gyfradd sylfaenol yn cael ei gosod ar £4,000. Byddai gofyn i unrhyw sefydliad a oedd yn dymuno codi mwy na'r gyfradd sylfaenol gyflwyno Cynllun Ffioedd derbyniol i CCAUC yn rhoi manylion ei ffioedd newydd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai myfyrwyr a oedd fel rheol yn byw yng Nghymru yn derbyn Grant Ffi, nad oedd angen ei ad-dalu, i dalu am y gwahaniaeth rhwng y ffioedd yn 2011/12 (£3,465 fel rheol) a'r ffioedd newydd a gâi eu codi yn 2012/13, ble bynnag yr oeddynt yn astudio yn y DU.

Cafodd y rheoliadau i weithredu'r system newydd eu pasio gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2011[1]. Ar 5 Ebrill 2011, cyhoeddodd CCAUC gylchlythyr a oedd yn rhoi arweiniad ar gynlluniau ffioedd[2] ac yn gofyn i unrhyw sefydliad a oedd yn dymuno codi mwy na'r gyfradd sylfaenol o £4,000, hyd at y ffi fwyaf o £9,000, gyflwyno cynlluniau.

Drwy eu cynlluniau ffioedd, rhoddodd y sefydliadau fanylion buddsoddiadau yr oeddynt yn bwriadu eu gwneud gyda chyfran o'r incwm newydd hwn i:

- hybu cydraddoldeb mynediad ymhellach, ac
- yn fwy cyffredinol, annog gweithgareddau sy'n hybu addysg uwch yng Nghymru ac yn sicrhau profiad mwy cadarnhaol i fyfyrwyr.

Cyflwynwyd y Cynlluniau Ffioedd i CCAUC erbyn **31 Mai 2011.**

Corff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cymru i gynnal:

---

[1] www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid/sub-ld8475-e.pdf?langoption=3&ttl=SUB-LD8475%20-%20The%20Student%20Fees%20%28Qualifying%20Courses%20and%20Persons%29%20%28Wales%29%20Regulations%202011.

[2] www.hefcw.ac.uk → cyhoeddiadau → cylchlythyrau

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (AU);
- ymchwil a wneir gan sefydliadau AU; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.